




## Ysgol Pentreuchaf

(Prifathro/Headteacher: Mr G.E Thomas)  
Pentreuchaf, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DZ.  
Ffôn/Tel – 01758 750 600 / 07584613603  
ebost/email - : [GethinElisThomas@gwynedd.gov.uk](mailto:GethinElisThomas@gwynedd.gov.uk)  
Gwefan/web: [www.ysgolpentreuchaf.org](http://www.ysgolpentreuchaf.org)



16 Mawrth 2012

Annwyl riant/warcheidwad,

### **'Gallwn roi dau beth pwysig i'n plant: un yw gwreiddiau a'r llall yw adennydd'**

**Cyn i mi gael fy mhenodi yn brifathro Ysgol Pentreuchaf yn 2009, bu imi rannu fy ngweledigaeth â llywodraethwyr yr ysgol. Ers hynny, mae staff Ysgol Pentreuchaf yn rhannu'r un weledigaeth ac yn gweithio'n hynod o galed i'w wireddu. Heb os, mae'r daith yn un anodd iawn ar adegau, ond rydym yn benderfynol o lwyddo. Teimlaf felly ei bod ond yn deg i mi, fel pennaeth yr ysgol, rannu fy ngweledigaeth â chi:**

*Rydw i eisiau Ysgol Pentreuchaf fod yn ysgol liwgar a modern sy'n parchu ei hanes a'i diwylliant, ond sydd yn symud ymlaen yn bwyllog ond penderfynol tuag at ragoriaeth, i baratoi'r disgyblion ar gyfer eu dyfodol fel dinasyddion.*

Ceisiasf sicrhau y caiff bob disgybl y cyfle i ddatblygu hyd eithaf ei allu gan feithrin agweddau a rhannu profiadau fydd yn gosod sylfaen gadarn i'w fywyd fel oedolyn. Gwneir hyn drwy ennyn balchder yn ei Gymreictod a theyrngarwch tuag at gymuned ac etifeddiaeth.

Credaf bod bob disgybl cyfwerth â'i gilydd ond dwi hefyd yn derbyn bod plant yn wahanol a chanddynt yr hawl i lwyddo mewn gwahanol ffyrdd. Parchaf bob disgybl o bob rhyw, lliw a chred a cheisiasf ddysgu'r plant i ddatblygu trwy barchu cred a diwylliant eraill yn ogystal ag ennyn parch at eu diwylliant eu hunain.

Rwyf eisiau i blant adael Ysgol Pentreuchaf yn ddisgyblion hyderus gyda chariad at addysg, gyda sgiliau trafod da a hygreddedd personol ac yn abl i wynebu sialens. Rydw i eisiau i'r disgyblion allu dysgu'n annibynnol yn ogystal â defnyddio sgiliau cydweithio; fod yn ymwybodol o'r safonau a ddisgwylir ganddynt; fod yn gwybod sut i wella eu gwaith a datrys problemau'n greadigol; fod â'r gallu i ddefnyddio'r adnoddau maent eu hangen ar gyfer datblygu; fod yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn wynebu anhawster; ac yn medru defnyddio sgiliau ymchwilio i ddod o hyd i atebion.

Er mwyn i hyn fod yn bosibl, rhaid i'r cwricwlwm eu ysgogi, fod yn aml-synhwyrol, a rhaid i'r addysgu fod wedi ei gynllunio fel bod y plant yn weithredol yn y broses o ddysgu yn hytrach nag yn derbyn popeth ar blât. Rwyf yn awyddus i'r cwricwlwm fod yn un eang ac yn llawn diddordeb a phrofiadau i'r plant, ac yn un a wnaiff roi cyfle iddynt ddatblygu i'w llawn botensial.

Rydw i eisiau i'r ysgol gofleidio technoleg fodern, fel arf i arbed llafur, fel ffordd o gyfathrebu, fel arf i ddysgu, ac fel rhywbeth sy'n ein galluogi i ddod â'r byd i mewn i'n dosbarthiadau.

Credaf y dylai disgyblion fod yn rhan o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd, ac yn y broses o osod cyfeiriad i'r ysgol. Er mwyn gwireddu hynny, mae'n rhaid i'r plant fod yn ymwybodol bod eu syniadau a'u gweledigaeth yn cael eu parchu, ac y gwnawn ni wrando arnynt.

Rydw i'n awyddus i'r staff ddangos blaengaredd, a chymryd risgiau proffesiynol yn eu addysgu, fel nad yw eu datblygiad fel arweinwyr, addysgwyr a phobl greadigol yn cael ei atal a'i gyfyngu. Er mwyn i bawb elwa o sgiliau a gwybodaeth aelod unigol o'r staff, rhaid i ni gyd fod yn gallu cyfathrebu'n rhwydd, mewn awyrgylch lle mae pawb yn cael parch, her a chefnogaeth.

Mae'r ysgol a'r cartref yn bartneriaeth. Hoffwn i chi fel rhieni a gwarchodwyr fod yn falch o'r ysgol. Credaf y dylai'r ysgol roi'r cyfle i chi ddeall a bod yn rhan o'r broses addysgu fel y gallwch helpu eich plant tu allan i'r ysgol. Hoffwn i chi deimlo'n abl i ofyn cwestiynau a gwneud awgrymiadau ynglŷn â bywyd yr ysgol.

Mae fy ngweledigaeth i o Ysgol Pentreuchaf yn rhoi anghenion y plant uwchlaw popeth arall, ac rwy'n hollol argyhoeddedig fod y disgyblion yn haeddu'r cyfleoedd addysgol gorau y gallwn eu darparu iddynt.

Yn ddiffuant iawn,

Gethin Elis Thomas